UNDEB MYFYRWYR
BANGOR
STUDENTS' UNION

Rheolau'r Etholiadau Sabothol 2012

Mae etholiadau sabothol yn ofyniad cyfreithiol i undebau myfyrwyr ac maent yn cael eu cynnal yn unol â Deddf Addysg 1994. Mae'r Ddeddf yn sefydlu mai'r Brifysgol fydd rheolydd yr etholiadau ac yn sicrhau bod pob myfyriwr cofrestredig yn cael y cyfle i a.) bleidleisio a b.) gynnig eu hunain fel ymgeiswyr i'w hethol, os dymunant wneud hynny. Er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf, mae Undeb Myfyrwyr Bangor wedi gweithio'n galed i baratoi casgliad o reolau etholiadau, fframwaith trefniadol a chanllawiau er mwyn ceisio sicrhau bod y broses etholiadol yn cael ei chynnal yn unol â'r egwyddorion canlynol:

Cynwysoldeb; **Hygyrchedd**; **Tegwch**; **Cydraddoldeb**; **Atebolrwydd**; **Tryloywder** ac **Ysbryd Cystadleuol**

Er eglurdeb, y Swyddog Adroddol sy'n meddu ar berchnogaeth a dehongliad o'r rheolau hyn. Dylai'r ymgeiswyr wneud pob ymdrech i ymgynghori gyda'r swyddog, neu ei ddirprwy penodedig, cyn gwneud unrhyw beth maent yn ansicr amdano.

Swyddogion Etholiadol:

Swyddog Adroddol: Ann North, Swyddog Datblygu Aelodaeth, UCM Cymru

(ann.north@nus-wales.org.uk)

Ann sydd wedi'i phenodi yn Swyddog Adroddol allanol, a chanddi hi mae'r cyfrifoldeb cychwynnol dros y broses etholiadol. Ei swyddogaeth hi yw sicrhau tegwch, sicrhau bod y rheolau'n cael eu gweithredu a goruchwylio cyfrif yr etholiad.

Dirprwy Swyddog Adroddol: Rhys Dart, Cyfarwyddwr, Undeb Myfyrwyr Bangor

(rhys.dart@undeb.bangor.ac.uk)

Yn rhinwedd ei swydd fel Dirprwy Swyddog Adroddol, bydd Rhys yn gyfrifol am redeg yr etholiadau o ddydd i ddydd ar ran Ann. Bydd hyn yn cynnwys trefnu cyhoeddusrwydd canolog yr etholiad, trefnu gorsafoedd pleidleisio, sicrhau papurau a blychau pleidleisio, briffio'r ymgeiswyr ac ymdrin yn gychwynnol ag unrhyw gwynion.

Y Pwyllgor Etholiadau:

Aelodau gyda Phleidlais: David Fordham; Paul Parker; Trefor Alun; Danielle Buckley; Johanna Illers; Rich Gorman; Jamie Evans.

Yn Mynychu'r Pwyllgor: Ann North; Rhys Dart; Aled Jones

Mae gan y Pwyllgor Etholiadau nifer o swyddogaethau, ond eu prif gyfrifoldeb yw sicrhau bod yr etholiad yn cael ei gynnal yn deg ar ran y corff myfyrwyr a'r Brifysgol. Maent wedi cynorthwyo gyda'r paratoadau ar gyfer yr etholiad ac wedi bod â rhan mewn penderfynu ar y rheolau, lleoliadau'r blychau pleidleisio a chynnwys cyhoeddusrwydd a briffio. Eu swyddogaeth yn ystod yr etholiad fydd cefnogi a diogelu'r broses ddemocrataidd a byddwch yn gweld rhai ohonynt yn y gorsafoedd pleidleisio dros gyfnod yr etholiadau. Mae'n hanfodol bod yr unigolion hyn yn niwtral ac nad ydynt yn ymochri ag unrhyw ymgyrch.

Rheolau'r Etholiadau:

Cynnwys:

1. Enwebiadau

2. Cyfnod ymgyrchu

3. Ymddygiad

4. Cyhoeddusrwydd

5. Cwynion

Mae'r rheolau hyn wedi cael eu cynllunio i fod mor glir, mor hawdd i'w dilyn ac mor hawdd i'w gweithredu ag sy'n bosib. Os oes gan unrhyw un ymholiadau ynghylch y rheolau yna yn yr achos cyntaf siaradwch â Rhys Dart (rhys.dart@undeb.bangor.ac.uk) os gwelwch yn dda i geisio eglurdeb.

Gall dorri unrhyw un o'r rheolau hyn arwain at osod sancsiynau ar ymgeisydd, ymgyrchydd neu ymgyrch.

Adran Un - Enwebiadau:

a) Rhaid i ymgeisydd gwrdd yn llawn â'r meini prawf canlynol cyn cael bod yn rhan o'r etholiad:

b) Ei fod/bod wedi dychwelyd y ffurflen enwebiadau wedi'i chwblhau at y Dirprwy Swyddog Adroddol (mewn person neu drwy e-bost) cyn amser cau enwebiadau.

c) Ei fod/bod wedi sicrhau enwebydd ac eilydd, y ddau ohonynt yn fyfyrwyr cyfredol, cofrestredig ym Mhrifysgol Bangor neu'n swyddogion sabothol sy'n gwasanaethu'n gyfredol dros Undeb Myfyrwyr Bangor.

d) Ei fod/bod yn fyfyriwr cyfredol, cofrestredig ym Mhrifysgol Bangor neu'n swyddog sabothol sy'n gwasanaethu'n gyfredol dros Undeb Myfyrwyr Bangor yn ei dymor/thymor cyntaf o wasanaeth.

e) Ei fod/bod wedi cyflwyno testun maniffesto naill yn Gymraeg neu Saesneg (dim mwy na 350 o eiriau ym mha bynnag iaith y'i cyflwynir) yn barod i'w gyfieithu, erbyn amser cau enwebiadau.

f) Ei fod/bod wedi mynychu'r sesiwn briffio'r ymgeiswyr, neu wedi derbyn briff llafar gan y Dirprwy Swyddog Adroddol os nad oedd yn gallu bod yn bresennol a'i fod/bod wedi anfon ymddiheuriadau ymlaen llaw.

g) Ei fod/bod yn cytuno ymlynu wrth y rheolau.

Adran Dau - Y Cyfnod Ymgyrchu:

a) Nid yw ymgyrchu yn cychwyn tan ddechrau swyddogol y cyfnod ymgyrchu ar 14 Mawrth am 9AM. Dim ond paratoi deunydd ymgyrchu a gaiff ymgeiswyr cyn y dyddiad hwnnw.

b) Caniateir ymgyrchu hyd at ddiwedd y cyfnod pleidleisio.

Adran Tri – Ymddygiad:

a) Ni chaiff ymgeiswyr nac ymgyrchwyr sydd yn sgìl eu hymwneud ag Undeb Myfyrwyr Bangor, neu yn rhinwedd eu bod yn dal (neu wedi dal) swyddi o gyfrifoldeb o fewn yr undeb, adnoddau sydd ar gael iddyn nhw ond ddim i fyfyrwyr eraill. Mae hyn yn cynnwys offer a dillad sydd wedi cael eu prynu gan yr undeb, rhestrau gohebu canolog a chyfrifon *Twitter* a grwpiau *Facebook* swyddogol UM. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

b) Yr ymgeiswyr sy'n gyfrifol am yr holl weithgaredd ymgyrchu a gynhelir yn eu henw, ac mae hynny'n cynnwys: ymgyrchu a gynhelir cyn dyddiad cau enwebiadau a gweithredoedd unrhyw drydydd parti ar eu rhan.

c) Ni chaiff ymgeiswyr ac ymgyrchwyr:

i. orfodi, dylanwadu trwy fygythiad nac mewn unrhyw ffordd frawychu myfyrwyr, yn arbennig pan eu bod yn agos at orsaf bleidleisio neu'n bwrw eu pleidlais.

ii. pleidleisio ar ran myfyriwr arall

iii. brawychu unrhyw un sy'n cymryd rhan yn yr etholiad

iv. andwyo'n fwriadol unrhyw ymgyrch ac eithrio eu hymgyrch eu hunain

v. difwyno deunyddiau, cyhoeddusrwydd, cyfryngau ar-lein, safleoedd rhyngweithio cymdeithasol etc. ymgeisydd arall

vi. gwneud unrhyw ymgais i dwyllo yn yr etholiad

vii. gwneud unrhyw ymdrech i ddylanwadu ar amhleidioldeb y Swyddog Adroddol, y Dirprwy Swyddog Adroddol, y Pwyllgor Etholiadau na staff Undeb y Myfyrwyr.

viii. trafod nodweddion personol ymgeisydd arall

ix. cam gynrychioli safbwyntiau ymgeisydd arall neu wneud honiadau am eu hunain neu unrhyw ymgeisydd arall nad ydynt yn wir.

x. Sefydlu eu 'gorsaf bleidleisio' eu hunain. Rhoi dyfais electroneg i bleidleiswyr at ddiben pleidleisio na gofyn i bleidleiswyr ddefnyddio eu dyfais electroneg eu hunain i bleidleisio ar unwaith.

xi. dwyn anfri ar y broses etholiadol

d) Rhaid i ymgeiswyr ac ymgyrchwyr:

i. Ymlynu wrth ystyr ac ysbryd y rheolau etholiadau a pholisïau cyfleoedd cyfartal, dim goddefgarwch o aflonyddu a dwyieithog Undeb y Myfyrwyr ar bob adeg.

ii. Ymlynu wrth ddeddf gwlad a rheoliadau'r Brifysgol ar bob adeg.

Enghraifft o ymgyrchu cadarnhaol:

Mae Ben a Jerry yn sefyll mewn etholiad am yr un safle. Mae Ben eisiau argyhoeddi'r corff myfyrwyr mai ef fyddai orau ar gyfer y swydd. ***Nid yw'n dderbyniol iddo ddweud****: "Jerry! Beth mae o'n ei wybod am redeg yr undeb? Mae o'n ffŵl".*

Fe allai ddweud *"Helo, Ben ydw i. Rwy'n credu mai fi yw'r ymgeisydd gorau yn yr etholiad hwn. Darllenwch fy maniffesto os gwelwch yn dda, mae'n cyflwyno'r hyn y byddaf yn ei wneud dros fyfyrwyr yn ystod y deuddeg mis nesaf. Os ydych yn hoffi'r hyn fyddwch chi'n ei ddarllen yna pleidleisiwch drosof i ar 23 Mawrth."* ***Fe allai hefyd ddweud*** *"Rwy'n credu mai fi yw'r ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd, gyda'r mwyaf o brofiad a'r cynllun cliriaf ar gyfer y dyfodol. Dydw i ddim yn credu bod gan fy ngwrthwynebydd gynllun clir am yr hyn yr hoffai ei gyflawni, a dydw i ddim yn meddwl chwaith fod ei syniadau'n ymarferol".*

Nid yw ***byth yn dderbyniol*** *gwneud sylwadau personol ynghylch ymgeiswyr eraill na'u cefnogwyr, er y cymhellir pob ymgeisydd i ddarllen maniffestos yr ymgeiswyr eraill ac i drafod syniadau ei gilydd.*

Adran Pedwar – Cyhoeddusrwydd:

a) Cyfyngir gwariant ymgeiswyr i £50; ni chaniateir gwario dros y trothwy hwn na'i gynyddu. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys yr holl brintio a threuliau'r holl ymgyrchwyr. Rhaid cyflwyno derbynebau yn manylu'r holl wariant i'r Dirprwy Swyddog Adroddol erbyn 10AM ar fore'r diwrnod cyfrif.

b) Cyfyngir yr ymgeiswyr i 100 taflen A3 o gyhoeddusrwydd wedi'i brintio. Mae hyn oherwydd ymroddiad cryf Undeb y Myfyrwyr i'w bolisi amgylcheddol, yn ogystal â bod yn fodd o annog yr ymgeiswyr i ymgyrchu drwy ddulliau mwy bywiog a chreadigol.

c) Rhoir gwerth mewn arian parod ar bopeth a ddefnyddir yn yr etholiadau a hynny gan y Swyddog Adroddol, neu ei ddirprwy enwebedig. Er eglurdeb, mae hyn yn cynnwys 'rhoddion ymgyrchu' na wnaeth gostio dim i chi o bosib, ond sy'n meddu ar werth ariannol 'byd real'.

d) Rhaid i'r holl adnoddau a dulliau y byddwch yn eu defnyddio yn eich ymgyrch etholiadol fod ar gael i'r holl ymgeiswyr eraill. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw gwirio hynny cyn eu defnyddio.

Er Enghraifft:

Yn ogystal â bod yn fyfyriwr, mae Patsy'n gweithio mewn clwb nos lleol ac yn sefyll yn yr etholiadau. Hoffai ei rheolwr weld ei chlwb yn meithrin cysylltiad agos â swyddog sabothol o'r undeb ac felly mae'n rhoi 100 o docynnau mynediad am ddim iddi ar gyfer digwyddiad nos Fercher. Mae Patsy'n rhoi'r rhain i fyfyrwyr sy'n addo pleidleisio drosti yn yr etholiadau.

Pan fo Edina, ymgeisydd etholiad arall, yn mynd at berchennog y clwb i ofyn iddi am docynnau am ddim i'w helpu i hyrwyddo ei hymgyrch, mae'n gwrthod ac mae hi'n gadael yn waglaw.

Yn yr enghraifft yma, byddai Patsy'n gorfod gwirio p'un ai fod tocynnau am ddim ar gael i'r holl ymgeiswyr cyn cytuno i'w defnyddio. Byddai'r Swyddog Adroddol hefyd eisiau rhoi gwerth ariannol ar y tocynnau a byddai ei chyllideb etholiad yn gostwng o ganlyniad i'w defnyddio.

e) Mae'r eitemau canlynol ar gael yn rhwydd i bob ymgeisydd a'u cefnogwyr ac felly ni roddir gwerth ariannol ar ddefnydd teg ohonynt:

Hen grysau-t; paent; hen gynfasau gwely; pennau marcio; *blu-tack*; cardbord sydd wedi'i ddefnyddio'n barod; hen bren; pensiliau; llinyn, tâp gludiog; pinnau.

NODYN: Cynhwysir y rheol hon i gynorthwyo'r ymgeiswyr i sicrhau bod cyfnod yr etholiadau'n amser cyffrous, bywiog ac uchel ei broffil. Mae'r Swyddog Adroddol a'i ddirprwy'n sylweddoli y gellid cymryd mantais annheg o'r rheol hon a byddant yn monitro'r adnoddau ymgyrchu'n agos oherwydd hynny. Cofiwch os gwelwch yn dda mai nhw yw'r bobl fydd yn penderfynu ar 'ddefnydd teg'.

Er Enghraifft:

Mae'n berffaith resymol i ofyn i gefnogwyr eich ymgyrch gasglu eu hen grysau-t a'u troi'n grysau-t ymgyrchu drwy baentio, lluniadu neu stensilio dyluniadau arnynt. Ni fyddai hyn yn costio dim o'ch cyllideb etholiad i chi.

Pe baech yn mynd allan a phrynu crysau-t pwrpasol, bydd gofyn i chi dalu am hynny o'ch cyllideb etholiad.

Os ydych yn sgrin-brintio neu'n defnyddio trosluniau ar eich crysau-t neu faneri, bydd angen i chi dalu am hynny o'ch cyllideb etholiad.

f) Rhaid i'r holl waith o brintio maniffestos, taflenni, posteri etc. gael ei wneud yn Undeb y Myfyrwyr gan yr aelodau priodol o staff yr undeb.

g) I gynorthwyo gyda pharatoi deunyddiau i'r holl ymgeiswyr cyn cychwyn ar ymgyrchu, cyfyngir yr ymgeiswyr i dri darn o waith celf i'w printio (taflenni, posteri etc.)

h) Rhaid i bob cyhoeddusrwydd etholiad gynnwys y dyddiadau pleidleisio a chyfeiriad gwefan yr etholiadau.

i) Rhaid i'r holl gyhoeddusrwydd etholiad fod yn gwbl ddwyieithog ac wedi'i gyfieithu a/neu ei wirio gan Gyfieithydd Undeb y Myfyrwyr **cyn ei brintio**. Yr unig eithriad i'r rheol hon yw ymgyrchu a wneir ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol ble mae'r rheolau dilynol yn weithredol:

j) Rhwydweithio Cymdeithasol

   i) *Facebook*:

      Os fyddwch chi'n ymgyrchu ar *Facebook*, fe ddylech arddangos eich cyflwyniad, maniffesto (neu faniffesto estynedig), amserlen yr etholiadau a'r cyfarwyddiadau pleidleisio yn ddwyieithog.

      Gall eich diweddariadau statws, post wal a phynciau trafod gael eu harddangos yn eich iaith ddewisol.

   ii) *Twitter*: Cewch ymgyrchu yn eich iaith ddewisol.

NODYN: Amserlen cyfieithu

- Rhaid i chi gyflwyno eich maniffesto gyda'ch enwebiad erbyn 2PM ar ddydd Gwener 17 Chwefror.

- Rhaid i chi gyflwyno testun eich holl gyhoeddusrwydd ysgrifenedig i'w gyfieithu erbyn 12 canol dydd ar ddydd Llun 20 Chwefror.

- Rhaid i chi sicrhau bod eich cyhoeddusrwydd yn cael ei brawf ddarllen cyn iddo gael ei brintio. I gynorthwyo gyda'r broses o brintio eich deunydd, rhaid i chi sicrhau bod eich dyluniadau terfynol yn cael eu prawf ddarllen gan Gyfieithydd yr Undeb cyn 12 canol dydd ar ddydd Mercher 7 Mawrth. **Fe'ch cymhellir i beidio â gadael hyn tan y funud olaf**.

- Os wnewch chi gwrdd â'r dyddiadau cau yma fe fyddwn ni'n gweithio'n galed i sicrhau bod eich cyhoeddusrwydd wedi cael ei gyfieithu a'i brintio cyn dechrau'r cyfnod ymgyrchu. Caiff y deunydd ei gyfieithu a'i brintio yn y drefn y'i derbynnir.

- Y mwyafswm geiriau ar gyfer cyhoeddusrwydd a baratoir cyn dechrau'r cyfnod ymgyrchu yw 700 gair yr ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys y maniffesto.

- Yn dilyn cyfieithu'r holl gyhoeddusrwydd a dderbynnir cyn y dyddiad cau caiff ymgeiswyr gyflwyno dyluniadau neu destun pellach i'w cyfieithu os dymunant, ond gan ganiatáu

amser rhesymol i'r cyfieithydd gyflawni'r gwaith. Ni ellir gwarantu bod y gwaith cyfieithu pellach hwn yn cael ei gyflawni, ond gwneir pob ymdrech.

NODYN: Dylunio cyhoeddusrwydd

- Chi sy'n gyfrifol am ddylunio eich cyhoeddusrwydd eich hun, gan gynnwys dylunio eich tudalennau maniffesto. Bydd gan bob ymgeisydd ddwy ochr A4 ar gyfer eu maniffesto; mae i fyny i chi sut i'w ddylunio ond rhaid iddo fod yn ddwyieithog. I'r rheiny ohonoch sy'n dymuno cael cymorth, bydd y Rheolwr TG ar gael i gynorthwyo gyda dylunio, a byddwch yn gallu neilltuo slot awr ar gyfer y gwaith dylunio.

- Bydd Undeb y Myfyrwyr yn cyhoeddi llyfryn maniffestos A4, yn cynnwys tudalennau maniffesto pob ymgeisydd. Anogir yr ymgeiswyr i ddylunio eu tudalen eu hunain, ond fe fydd patrymlun gosodedig ar gael i'r rheiny sy'n dymuno ei ddefnyddio.

Adran Pump – Cwynion:

a) Rhaid i bob cwyn ynghylch ymgeiswyr, ymgyrchwyr, swyddogion etholiadol neu'r broses bleidleisio gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r Dirprwy Swyddog Adroddol. Dim ond cwynion a gyflwynir yn ysgrifenedig a gânt eu hystyried. Rhaid i'r gŵyn amlygu'r rheol etholiadau sydd wedi cael ei thorri, cyflwyno tystiolaeth o'r dor rheol a chynnig cwrs rhesymol o weithredu.

b) Yn y lle cyntaf bydd y Dirprwy Swyddog Adroddol yn ystyried y gŵyn ac yn gwneud dyfarniad o fewn 24 awr. Os pennir ei fod yn fater difrifol gall y Dirprwy Swyddog Adroddol ei gyfeirio ar unwaith at y Swyddog Adroddol er ystyriaeth.

c) Dylid cyflwyno cwynion ynghylch ymddygiad y Dirprwy Swyddog Adroddol yn ysgrifenedig at y Swyddog Adroddol.

d) Rhaid cyflwyno cwynion cyn dechrau'r cyfrif etholiadau. Dim ond cwynion ynghylch proses y cyfrif ei hun a gânt eu hystyried unwaith mae'r cyfrif wedi dechrau; rhaid iddynt gael eu cyflwyno o fewn 24 awr o gyhoeddi'r canlyniadau.

e) Y sancsiynau sydd ar gael i'r Dirprwy Swyddog Adroddol yw:

   i. Rhybuddio ymgeisydd ynghylch ei h/ymddygiad yn y dyfodol.

   ii. Cymryd camau i lefelu'r cae chwarae er mwyn gwneud iawn am dor rheoliad etholiad.

   iii. Dirwyo ymgeisydd drwy naill ai ostwng y swm o arian y cânt ei wario, neu drwy atafaelu deunydd cyhoeddusrwydd sydd wedi'i brintio.

   iv. Gwahardd ymgeisydd a'i ymgyrchwyr rhag ymgyrchu am gyfnod o amser (hyd at 24 awr).

v. Gwahardd ymgyrchydd o weddill yr ymgyrch (pan na fo'r ymgyrchydd yn ymgeisydd).

f) Yn ychwanegol i'r holl sancsiynau uchod, mae'r canlynol ar gael i'r Swyddog Adroddol:

i. Diarddel ymgeisydd o'r etholiad nes bod ymchwiliad yn cael ei gynnal

ii. Atal y broses etholiadol nes bod ymchwiliad yn cael ei gynnal

iii. Argymell i'r Pwyllgor Etholiadau, a'r Brifysgol, bod ymgeisydd yn cael ei ddiarddel

iv. Argymell i'r Pwyllgor Etholiadau, a'r Brifysgol, bod yr etholiad yn cael ei ail gynnal neu fod pleidlais yn cael ei ddirymu

g) Caiff ymgeiswyr apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad a wneir gan y Swyddog Adroddol a'i Ddirprwy drwy gyflwyno apêl yn ysgrifenedig, o fewn 24 awr o'r penderfyniad, gan ddilyn y weithdrefn apelio a amlinellir isod:

i. Clywir cam cyntaf yr apêl gan y Swyddog Adroddol; os yw'r ymgeisydd yn parhau i fod yn anfodlon, yna
ii. Gellir cymryd ail gam apêl i'r Pwyllgor Etholiadau a fydd yn clywed yr achos a gyflwynir gan yr ymgeisydd a'r achos dros osod sancsiynau a gyflwynir gan y Swyddog Adroddol, neu ei ddirprwy enwebedig.
iii. Y cam apêl terfynol yw i Gofrestrydd y Brifysgol neu ei ddirprwy enwebedig.